# Adolygiad Llifogydd Arfordirol Cymru: Adroddiad Prosiect 2 – Argymhellion 11 a 12

## Cynnwys

Cyd-destun ... 3
Cyflwyno'r Argymhellion ... 4
Methodoleg ... 4
Sefyllfa Bresennol ... 5
Argymhelliad 11 ... 5
Argymhelliad 12 ... 5
Ymgynghori â Phartneriaid Proffesiynol ... 6
Argymhelliad 11 ... 6
Argymhelliad 12 ... 9
Casgliadau ... 11
Argymhelliad 11: Gwaith gwella Ardaloedd Rhybuddion Llifogydd a throthwyon ... 11
Argymhelliad 12: Ffynonellau ychwanegol o wybodaeth ddilysu ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol ... 11
Atodiad 1 – Gwelliannau a gyflwynwyd i'r Gwasanaeth Rhybuddio rhag Llifogydd ... 13
Gogledd Cymru ... 13
De-orllewin Cymru ... 15
De-ddwyrain Cymru ... 16

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

## Cyd-destun

Yn dilyn y llifogydd arfordirol ddiwedd mis Rhagfyr 2013 a dechrau mis Ionawr 2014, gofynnodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i Gyfoeth Naturiol Cymru gynnal adolygiad dau gam o'r llifogydd arfordirol. Gofynnodd y Gweinidog i'r adolygiad gael ei gynnal mewn cydweithrediad â phob Awdurdod Rheoli Risg yng Nghymru. Nododd Cam 2 yr Adolygiad hwn 47 o argymhellion i'w dilyn yn y dyfodol ac ym mis Ionawr 2015 cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru gynllun cyflawni yn amlinellu ffordd arfaethedig o roi sylw i bob argymhelliad. Cafodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyfarwyddyd gan y Gweinidog i roi'r Cynllun Cyflawni ar waith ar y cyd yn 2015/16 gyda chyllid cefnogol a wnaed ar gael.

Mae 30 o'r argymhellion wedi cael eu pecynnu yn ddeg prosiect i adlewyrchu themâu cyffredin. Mae'r 17 argymhelliad sy'n weddill yn sefyll yn annibynnol ar y prosiectau hyn gydag arweinwyr unigol i'w datblygu.

Rhestrir y deg prosiect a'u themâu technegol bras isod:

Prosiect 1 – Darogan Llifogydd a Chynllunio Arfordirol
**Prosiect 2 – Rhybuddio rhag Llifogydd a Darogan Llifogydd**
Prosiect 3 – Cydnerthedd Cymunedol
Prosiect 4 – Ymateb Gweithredol
Prosiect 5 – Amddiffynfeydd Arfordirol
Prosiect 6 – Set Ddata ac Archwilio Amddiffynfeydd Arfordirol Cenedlaethol
Prosiect 7 – Archwiliad Sgiliau a Galluedd, a Rolau a Chyfrifoldebau
Prosiect 8 – Adolygiad o Grwpiau Arfordirol
Prosiect 9 – Addasu Arfordirol
Prosiect 10 – Cydnerthedd Seilwaith

Mae Argymhellion 11 a 12 yn gysylltiedig â gwella'r Gwasanaeth Rhybuddio rhag Llifogydd, yn enwedig pennu Ardaloedd Rhybuddion Llifogydd a throthwyon rhybuddion llifogydd; mae angen gwybodaeth ddilysu o ddigwyddiadau stormydd go iawn.

Mae Argymhellion 11 a 12 at ei gilydd yn ffurfio Prosiect 2 – **Rhybuddio rhag Llifogydd a Darogan**. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r gwaith a gynhaliwyd i gwblhau Argymhellion 11 a 12.

## Cyflwyno'r Argymhellion

**Argymhelliad 11**
*Datblygu a gweithredu rhaglen wedi'i blaenoriaethu o waith i wella ardaloedd a throthwyon rhybuddio rhag llifogydd, gan ddefnyddio'r profiad a'r data a gasglwyd o'r stormydd hyn. Dylai hyn gynnwys ymgysylltu â phartneriaid proffesiynol a chymunedau fel y bo'n briodol.*

Mae Argymhelliad 11 yn ymwneud â gwella Gwasanaeth Rhybuddio rhag Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn barhaus, yn seiliedig ar brofiad a thystiolaeth a gasglwyd o ddigwyddiadau stormydd go iawn. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dysgu'n barhaus, a lle bo'n briodol, yn gwella ei Wasanaeth Rhybuddio rhag Llifogydd yn dilyn pob digwyddiad o lifogydd. Bydd yr adroddiad hwn yn nodi ac yn disgrifio'r gwaith y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i wneud i wella ei Wasanaeth Rhybuddio rhag Llifogydd yn dilyn stormydd gaeaf 2013/14, a hefyd y gwaith sy'n mynd rhagddo neu sydd wedi'i gynllunio i wella'r gwasanaeth at y dyfodol.

**Argymhelliad 12**
*Adolygu ac ystyried ffynonellau ychwanegol o wybodaeth ddilysu ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol. Mae posibilrwydd y gallai hwn wella hyder o ran darogan a rhybuddio fel ei gilydd. Gallai hyn gynnwys ceisio adborth gan bartneriaid proffesiynol ac eraill.*

Mae Argymhelliad 12 yn ymwneud â chasglu cymaint o wybodaeth ag y bo modd o amrywiaeth o ffynonellau er mwyn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i ddilysu'r Gwasanaeth Rhybuddio rhag Llifogydd a'i wella yn y pen draw. Bydd yr adroddiad hwn yn nodi'r data dilysu a ddefnyddir ar hyn o bryd ac yn nodi ffynonellau ychwanegol o wybodaeth ddilysu y gellid eu coladu yn ystod neu ar ôl digwyddiadau stormydd yn y dyfodol er mwyn gwella hyder o ran darogan a rhybuddio mwy fyth.

## Methodoleg

Er mwyn gyrru'r argymhellion hyn yn eu blaenau, crëwyd gweithgor mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys arbenigwr technegol o bob un o'r tri thîm Rheoli Llifogydd lleol (De-orllewin, De-ddwyrain a'r Gogledd), cynrychiolwyr o'r tîm Rhagweld Llifogydd cenedlaethol a thîm prosiect Adolygiad Llifogydd Arfordirol Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru. Ceisiwyd safbwyntiau partneriaid proffesiynol trwy holiadur ar gyfer y ddau argymhelliad a chrynhoir eu safbwyntiau yn yr adran ymgynghori (tudalen 6).

## Sefyllfa Bresennol

### Argymhelliad 11

Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â gwella'r Gwasanaeth Rhybuddio rhag Llifogydd yn barhaus. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio'i brofiad gweithredol o ddefnyddio'i Wasanaeth Rhybuddio rhag Llifogydd yn ystod digwyddiadau go iawn a rhai nas digwyddwyd (e.e. trwy edrych ar wiriadau dyddiol arferol a gwaith datblygu modelau) i wella'i wasanaeth yn barhaus.

Nodwyd gwaith gwella o dan Argymhelliad 11 o dan ddau gategori: yr hyn y gellid ei wneud ar unwaith a'r hyn y byddai'n rhaid gwneud rhagor o ddatblygu a gwaith yn ei gylch. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cwblhau'r gwelliannau a ystyriwyd yn rhai tymor byr. Mae rhai gwelliannau y mae angen gwneud rhagor o waith modelu yn eu cylch, yn enwedig yn ardal de-ddwyrain Cymru, ac mae'r Ardaloedd Rhybuddion Llifogydd hyn sydd angen rhagor o waith wedi eu nodi yn Atodiad 1 hefyd. Mae'r rhain yn bennaf yn ardal Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg, lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi adolygu'r Ardaloedd Rhybuddion Llifogydd ac yn cydnabod bod angen gwneud gwelliannau.

### Argymhelliad 12

Mae dilysu'r effeithiau gwirioneddol yn erbyn yr effeithiau a ragwelwyd yn hanfodol er mwyn asesu perfformiad rhagolygon ac i nodi mannau lle gellir gwella ein Gwasanaeth Rhybuddio rhag Llifogydd. Mae'r rhestr isod yn nodi dulliau dilysu a ddefnyddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd:

- Arsylwi ar safleoedd yn ystod digwyddiadau
- Arsylwi ar safleoedd ar ôl digwyddiadau (e.e. marciau malurion)
- Recordiadau fideo
- Teledu cylch cyfyng
- Pob ffynhonnell cyfryngau
- Adroddiadau gan bartneriaid proffesiynol
- Adroddiadau gan aelodau o'r cyhoedd
- Gweithdai ymgysylltiad cymunedol (e.e. cysylltu â'r cyhoedd)
- Modelu llifogydd.


Wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn, mae'r gweithgor hefyd wedi dadansoddi rhai o'r dulliau dilysu y mae'r tri thîm Rheoli Digwyddiadau Llifogydd yn eu defnyddio, a lle bo'n briodol, bydd y dulliau hyn yn cael eu defnyddio mewn digwyddiadau yn y dyfodol, er mwyn creu dull dilysu cyson ledled Cymru o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Ymgynghori â Phartneriaid Proffesiynol

### Argymhelliad 11

Ar gyfer Argymhelliad 11, gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'n partneriaid proffesiynol:

Cwestiwn 1 – A oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â chyflwyno a derbyn Rhybuddion Llifogydd yn eich ardal arfordirol, yn benodol p'un a ydynt yn cael eu cyhoeddi mewn amgylchiadau priodol?
Cwestiwn 2 – Yn eich barn chi, a oes unrhyw leoliadau arfordirol penodol yn eich ardal y mae angen gwneud rhagor o waith asesu arnynt o ran penderfynu pryd yr aed y tu hwnt i amod penodol er mwyn cyflwyno rhybudd?
Cwestiwn 3 – Beth yw'r ffordd orau o gyfathrebu unrhyw newidiadau a wneir i'r system rhybuddio rhag llifogydd arfordirol, megis newid y meini prawf sy'n sbarduno rhybudd llifogydd?
Mae crynodeb o'r ymatebion isod:





Ffigur 1 – Siart gylch sy'n crynhoi ymatebion partneriaid proffesiynol i Gwestiwn 1

Fel y gellir gweld o Ffigur 1, roedd 61% o'r bobl a holwyd heb unrhyw bryderon ynglŷn â chyflwyno a derbyn rhybuddion llifogydd, a dywedodd 39% o'r bobl a holwyd fod ganddynt bryderon. Roedd hyn o blith 18 o ymatebion.

Roedd rhai o'r pryderon a grybwyllwyd eisoes wedi cael eu datrys, neu roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n eu datrys am eu bod yn ymwneud â maint ardaloedd y rhybuddion llifogydd (sylwadau tri ymatebydd). Roedd pryderon y gweddill ohonynt yn ymwneud â thôn a geiriad y negeseuon, oherwydd roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y negeseuon braidd yn ddifrifol, yn enwedig pan oeddent yn cael eu cyflwyno mewn ardaloedd sydd wedi eu hamddiffyn (sylwadau pedwar ymatebydd).


Roedd tua hanner o'r holl ymatebion gwnaethom eu derbyn yn datgan bod y rhybuddion wedi'u cyhoeddi mewn da bryd, ond gofynnwyd p'un a ddylai Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried amseriad

cyhoeddi'r rhybuddion. Dangosodd yr ymatebion fod cyhoeddi rhybuddion llifogydd yn ystod y dydd yn fwy buddiol, yn arbennig mewn ardaloedd diwydiannol lle na fyddai unrhyw un o bosibl yno i ymateb y tu hwnt i oriau gwaith cyffredinol.




Ffigur 2 – Siart gylch sy'n crynhoi ymatebion partneriaid proffesiynol i Gwestiwn 2

Mae Ffigur 2 yn dangos bod 39% o'r ymatebion i Gwestiwn 2 yn teimlo bod angen gwneud rhagor o waith asesu mewn lleoliadau penodol yn eu hardaloedd. Yr un ymatebwyr yw'r rhain a nododd fod ganddynt bryder yng Nghwestiwn 1. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn ymwybodol o'r rhain ers llifogydd 2013/14 ac mae eisoes wedi mynd i'r afael â nhw neu wedi rhoi cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â nhw yn y dyfodol agos. Dywedodd 61% o'r 18 o ymatebion nad oedd ganddynt unrhyw leoedd arbennig oedd yn haeddu asesiad pellach.




Ffigur 3 – Siart gylch sy'n crynhoi ymatebion partneriaid proffesiynol i Gwestiwn 3

Gofynnwyd Cwestiwn 3 oherwydd cais gan yr holl bartïon fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfathrebu newidiadau a wnaed i'r system rhybuddio rhag llifogydd yn effeithiol ac mewn da bryd. Mae Ffigur 3 yn dangos bod ymatebion o blith y 18 a dderbyniwyd yn nodi y dylai unrhyw newidiadau gael eu cyfathrebu drwy e-bost gan ddefnyddio'r un cysylltiadau a ddefnyddir ar gyfer rheoli digwyddiadau. Opsiynau eraill a gynigiwyd oedd y cyfryngau cymdeithasol, ffôn a negeseuon testun. Mae hyn yn cadarnhau'r angen i hysbysu'n partneriaid proffesiynol o newidiadau i'r system rhybuddio rhag llifogydd ac i wneud hyn trwy e-bostio mewn da bryd.

Crynodeb o'r atebion

Nododd yr holl ymatebion gwnaethom eu derbyn ar gyfer Argymhelliad 11 rai materion ynghylch maint yr Ardaloedd Rhybuddion Llifogydd; y geiriad, yr amseriad a'r tôn a ddefnyddiwyd wrth gyhoeddi rhybuddion llifogydd; a rhannu newidiadau perthnasol i amodau sbarduno a throthwyon. Gyda'i gilydd, mae ymatebion yr ymgynghoriad yn adlewyrchu y byddai mwyafrif y partneriaid proffesiynol am gael eu hysbysu ynghylch unrhyw newidiadau a wneir gan Gyfoeth Naturiol Cymru trwy e-bost mewn da bryd.

## Argymhelliad 12

Ar gyfer Argymhelliad 12, gofynnwyd pum cwestiwn i'n partneriaid proffesiynol:

Cwestiwn 1 – A oes gan eich awdurdod lleol unrhyw broses ddilysu ar waith, ac os oes, beth ydych chi'n ei wneud (rhowch ddisgrifiad)?

Cwestiwn 2 – A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer ffyrdd ychwanegol o ddilysu, a dulliau o reoli'r rhain?

Cwestiwn 3 – A oes gennych unrhyw bryderon / bylchau yn eich ardal o ran dilysu?

Cwestiwn 4 – Pa amodau sbarduno sydd gennych ar waith i ddechrau eich proses ddilysu?

Cwestiwn 5 – Pa system sydd gennych ar waith i reoli'r data, a phwy ydych chi'n rhannu'r data hwn â nhw?

Mae crynodeb isod o'r ymatebion a dderbyniwyd:

Ar gyfer Cwestiwn 1, dywedodd 77% o'r ymatebion nad oedd proses ddilysu ffurfiol ar waith ar gyfer digwyddiadau llifogydd, tra bod 23% o'r ymatebion yn nodi eu bod yn cynnal archwiliadau ar y safle ar ôl digwyddiadau, ac yn cyfathrebu â Chyfoeth Naturiol Cymru yn ôl trefniant *ad hoc*.

Ar gyfer Cwestiwn 2, wrth ystyried yr atebion a dderbyniwyd, yr unig ffynhonnell ddilysu ychwanegol a ddefnyddir, o'i chymharu â'r dulliau dilysu a weithredir gan Gyfoeth Naturiol Cymru, yw'r defnydd o ddronau'r heddlu ar gyfer dal data digwyddiadau.

Ar gyfer Cwestiwn 3, mae gan hanner y sefydliadau sy'n cyflawni gwaith dilysu bryderon yn eu hardaloedd ynghylch dilysu oherwydd pryderon o ran a) rhannu'r data, a b) y gofyn am adnoddau er mwyn medru dilysu digwyddiadau.

Mewn ymateb i Gwestiwn 4, o'r 23% o'r ymatebwyr sy'n cyflawni dilysu data, y sbardun ar gyfer coladu data yw derbyn rhybuddion llifogydd neu hysbysiadau o lifogydd eiddo.

Ar gyfer Cwestiwn 5, mae'r ymatebion yn dangos bod amrywiaeth o systemau ar waith ymysg y sawl sy'n cyflawni ymdrechion dilysu yn hytrach nag un system bendant, gyson. Rhennir data'n fewnol ym mhob sefydliad, ond nifer bach o ymatebion yn unig a nododd fod ganddynt broses i rannu'u data gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.

Crynodeb o'r atebion

Dangosodd y broses ymgynghori ar gyfer Argymhelliad 12 nad oedd prosesau na dulliau dilysu ffurfiol ar gyfer y rhan fwyaf o'n partneriaid proffesiynol. Ymddengys fod hyn oherwydd diffyg adnoddau a'r ffaith na'u hystyrir yn flaenoriaeth. Mae hyn wedi amlygu bwlch mewn gwybodaeth o ran cwblhau dilysu a dealltwriaeth gyfyng o fuddiannau dilysu. Mae angen dull Cymru gyfan i sicrhau dull cyson ar gyfer y broses o ddilysu er mwyn mwyhau buddiannau dilysu. Dylid datblygu hyn, ond bydd hi'n her i wneud hyn yn flaenoriaeth a chanfod yr adnoddau gyda phartneriaid proffesiynol, a chanddynt flaenoriaethau uwch.

## Casgliadau

### Argymhelliad 11: Gwaith gwella Ardaloedd Rhybuddion Llifogydd a throthwyon

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dysgu'n barhaus o ddigwyddiadau llifogydd ac yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd i wella'r Gwasanaeth Rhybuddio rhag Llifogydd. Mae gwelliannau o'r fath yn cynnwys datblygu Ardaloedd Rhybuddion Llifogydd newydd, mireinio Ardaloedd Rhybuddion Llifogydd presennol, a gwella trothwyon rhybuddio rhag llifogydd a lefelau sbarduno. Cwblheir y gwelliannau hyn trwy ymgysylltu â phartneriaid proffesiynol.

Mae yna hefyd rai Ardaloedd Rhybuddion Llifogydd sy'n cael eu hadolygu yn dilyn digwyddiadau llanw 2013/14, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dal i aros i waith modelu gael ei orffen yn eu cylch. Cynhelir yr adolygiadau hyn cyn gynted ag y bydd y wybodaeth ar gael. Unwaith y bydd y newidiadau hyn wedi eu dynodi, byddwn yn ymgynghori â'n partneriaid proffesiynol i geisio'u cefnogaeth cyn symud ymlaen. Yna, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio gyda phartneriaid proffesiynol ac Awdurdodau Rheoli Risg i gyfathrebu newidiadau â chymunedau perthnasol mewn modd effeithiol unwaith iddynt gael eu rhoi ar waith.

Mae Atodiad 1 yn rhestru'r 40 o Ardaloedd Rhybuddion Llifogydd a adolygwyd ac a newidiwyd yn dilyn gaeaf 2013/14.
Gwneir gwelliannau pellach gan fod hwn yn faes lle bydd angen cwblhau gwelliannau parhaus (yn unol â blaenoriaethau ac argaeledd adnoddau).

### Argymhelliad 12: Ffynonellau ychwanegol o wybodaeth ddilysu ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol

Yn seiliedig ar adolygiad o'r prosesau coladu data cyfredol sydd ar waith o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru a'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd gan bartneriaid proffesiynol. Daethpwyd i gasgliad bod Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd yn coladu ac yn defnyddio ffynonellau gwybodaeth dilysu sydd ar gael yn hawdd. Fodd bynnag, wrth i dechnoleg symud ymlaen ac wrth i dechnegau newydd o gasglu data ymddangos, efallai y bydd ffynonellau data eraill ar gael. Mae angen i Gyfoeth Naturiol Cymru allu casglu'r data newydd hwn er mwyn gwneud rhagor o welliannau i'w Wasanaeth Rhybuddio rhag Llifogydd. Mae enghreifftiau diweddar o ddulliau data newydd yn cynnwys defnyddio dronau i gasglu data ffotograffig i ddangos tystiolaeth o faint llifogydd yn ystod ac ar ôl digwyddiad storm.

Fel rhan o ddatblygiad parhaus Cyfoeth Naturiol Cymru, rydym yn croesawu pob ffynhonnell dystiolaeth ynghylch digwyddiadau. I'n helpu i wella ein Gwasanaeth Rhybuddio rhag Llifogydd a'n dealltwriaeth o risg llifogydd yn ystod digwyddiadau llifogydd, byddem yn annog unrhyw un i anfon unrhyw dystiolaeth o lifogydd at y cyfeiriadau e-bost canlynol fel bod gennym yr holl wybodaeth sydd ar gael i gefnogi unrhyw benderfyniadau a gymerir.

| | |
|---|---|
| De-ddwyrain Cymru – | flinese@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk |
| De-orllewin Cymru – | flinesw@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk |
| Gogledd Cymru – | flinen@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk |

Bydd gwybodaeth ychwanegol a dderbynnir trwy'r ffyrdd uchod yn ychwanegu at ymdrechion Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn ein helpu i fynd at ffordd Cymru gyfan, gyson o gasglu data dilysu. Dylid datblygu hyn, ond bydd hi'n her i wneud hyn yn flaenoriaeth a chanfod yr adnoddau

gyda phartneriaid proffesiynol, a chanddynt flaenoriaethau uwch. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru bydd pennu'r flaenoriaeth a'r gwerth o gael dull Cymru gyfan tuag at ddilysu digwyddiadau.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Atodiad 1 – Gwelliannau a gyflwynwyd i'r Gwasanaeth Rhybuddio rhag Llifogydd

Mae Atodiad 1 yn cynnwys rhestr o'r holl adolygiadau a newidiadau a wnaed i'r Gwasanaeth Rhybuddio rhag Llifogydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn stormydd gaeaf 2013/14. Mae cyfanswm o 40 o ardaloedd yng Nghymru wedi cael eu hadolygu yn sgil y digwyddiadau hyn ond nid yw pob un o'r adolygiadau wedi dod i'r casgliad bod angen newidiadau.

## Gogledd Cymru

Arglawdd Gogleddol
Cynyddwyd y Trothwy Rhybudd Llifogydd ar 27 Hydref 2014

Arglawdd Penarlâg
Cynyddwyd y Trothwy Rhybudd Llifogydd ar 27 Hydref 2014

Maes-glas i Fagillt
Cynyddwyd y Trothwy Rhybudd Llifogydd ar 27 Hydref 2014

Ardal A y Parlwr Du
Cynyddwyd Trothwyon Rhybudd Llifogydd a Rhybudd Llifogydd Difrifol

Ardal B y Parlwr Du
Cynyddwyd Trothwyon Rhybudd Llifogydd

Ardal A Prestatyn
Ardal Rhybudd Llifogydd wedi'i hestyn i gynnwys 129 o adeiladau ychwanegol ac wedi'i hailenwi Lôn y Traeth, Prestatyn

Ardal B Prestatyn
Ardal Rhybudd Llifogydd wedi'i lleihau i dynnu 129 o adeiladau ohoni ac wedi'i hailenwi'n Brestatyn a Dwyrain y Rhyl

Splash Point y Rhyl
Crëwyd ardal Rhybudd Llifogydd newydd yn dilyn digwyddiad mis Rhagfyr 2013.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ardal A y Rhyl
Cynyddwyd y trothwy Rhybudd Llifogydd.

Ardal A Bae Cinmel
Ardal Rhybudd Llifogydd wedi'i hestyn i gynnwys 195 o adeiladau ychwanegol

Ardal B Bae Cinmel
Ardal Rhybudd Llifogydd wedi'i lleihau gan fod Ardal A Bae Cinmel wedi'i hehangu.

Llanddulas
Cynyddwyd y trothwy Rhybudd Llifogydd.

Bangor
Cynyddwyd y trothwy Rhybudd Llifogydd.

Bae Trearddur
Lleihawyd y trothwy Rhybudd Llifogydd.

Dwyran
Lleihawyd y trothwy Rhybudd Llifogydd.

Y Felinheli
Lleihawyd y trothwy Rhybudd Llifogydd.

Carreg yr Imbill
Cyflwynwyd Ardal Rhybudd Llifogydd newydd.

Pwllheli
Ardal Rhybudd Llifogydd bellach wedi'i rhannu'n ddwy ardal: Pwllheli a Charreg yr Imbill

Abermaw
Ardal Rhybudd Llifogydd wedi'i rhannu; yr enwau newydd yw "Harbwr Abermaw a Hendre Mynach" a "Abermaw, Heol y Llan".

Ardal A Fairbourne
Ardal Rhybudd Llifogydd wedi'i lleihau mewn maint.

Ardal B Fairbourne

Ardal Rhybudd Llifogydd wedi'i hestyn i gynnwys y rhai a dynnwyd o Ardal A Fairbourne

## De-orllewin Cymru

Y Borth
Amodau Sbarduno Rhybudd Llifogydd newydd wedi eu cyflwyno yn seiliedig ar Fodel Arfordirol Cymru

Baglan ac Aberafan
Cyflwynwyd Ardal Rhybudd Llifogydd newydd

Llangennech
Amodau sbarduno wedi eu trosglwyddo i Fodel Arfordirol Cymru

Pen-clawdd
Amodau sbarduno Rhybudd Llifogydd wedi eu cynyddu.

Llanelli
Amodau sbarduno Rhybudd Llifogydd wedi eu cynyddu.

Pen-bre
Amodau sbarduno Rhybudd Llifogydd wedi eu cynyddu.

Glanyfferi
Amodau sbarduno Rhybudd Llifogydd newydd wedi eu cyflwyno.

Parc Gwyliau Bae Caerfyrddin
Amodau sbarduno Rhybudd Llifogydd wedi eu diwygio.

Parc Gwyliau Bae Caerfyrddin
Amodau sbarduno Rhybudd Llifogydd wedi eu diwygio.

## De-ddwyrain Cymru

Aber Afon Wysg yng Nghasnewydd a Chaerllion
Mae'r ardal Rhybudd Llifogydd bellach wedi'i rhannu'n wyth Ardal Rhybudd Llifogydd llai: Aber Afon Wysg ym Maendy, Gogledd Llyswyry a Phil Ysbyty, Aber Afon Wysg yn Aber-wysg a Hen Ddociau'r Dref, Aber Afon Wysg yng Nghrindai a Chyffiniau Ffordd Malpas, Aber Afon Wysg yng Nghaerllion, Aber Afon Wysg yn Sain Silian, Aber Afon Wysg ym Mhilgwenlli, Aber Afon Wysg yng Nglan yr Afon, Aber Afon Wysg yn Ne Llyswyry

Aber Afon Gwy yn Nhyndyrn
Wedi'i adolygu, nid oes angen newidiadau

Aber Afon Gwy yng Nghas-gwent
Wedi'i adolygu, nid oes angen newidiadau

Arfordir yn Aberddawan
Wedi'i adolygu, nid oes angen newidiadau

Arfordir yn Swanbridge a'r Barri
Wedi'i adolygu, nid oes angen newidiadau

Arfordir ym Mhenarth
Wedi'i adolygu, nid oes angen newidiadau

Arfordir ger Gwastadeddau Gwynllŵg yn Ardal Casnewydd
Mae angen i drothwyon rhybudd llifogydd
gael eu diwygio ac mae angen rhannu'r ardal. Yn aros am astudiaeth fapio sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd i nodi'r trothwyon newydd.

Arfordir ger Gwastadeddau Gwynllŵg yn Ardal Caerdydd
Mae angen i drothwyon rhybudd llifogydd gael eu diwygio ac mae angen rhannu'r ardal. Yn aros am astudiaeth fapio sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd i nodi'r trothwyon newydd.

Arfordir ger Ardaloedd Cil-y-coed
Mae angen i drothwyon rhybudd llifogydd gael eu diwygio ac mae angen rhannu'r ardal. Yn aros am astudiaeth fapio sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd i nodi'r trothwyon newydd.

Rhymni Lanwol yn yr Ardal Ddiwydiannol ger Pont Tredelerch, gan gynnwys y Rhath
Ardal rhybudd llifogydd newydd wedi'i chyflwyno.

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 9am – 5pm)

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon trwy ganiatâd o flaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru